IB DIPLOMA PROGRAMME
PROGRAMME DU DIPLÔME DU BI
PROGRAMA DEL DIPLOMA DEL BI

M05/1/A1WEL/SP2/WEL/TZ0/XX

22050340

**WELSH A1 – STANDARD LEVEL – PAPER 2**
**GALLOIS A1 – NIVEAU MOYEN – ÉPREUVE 2**
**GALÉS A1 – NIVEL MEDIO – PRUEBA 2**

Friday 6 May 2005 (morning)
Vendredi 6 mai 2005 (matin)
Viernes 6 de mayo de 2005 (mañana)

1 hour 30 minutes / 1 heure 30 minutes / 1 hora 30 minutos

---

INSTRUCTIONS TO CANDIDATES

- Do not open this examination paper until instructed to do so.
- Answer one essay question only. You must base your answer on at least two of the Part 3 works you have studied. You may include in your answer a discussion of a Part 2 work of the same genre if relevant. Answers which are not based on a discussion of at least two Part 3 works will not score high marks.

INSTRUCTIONS DESTINÉES AUX CANDIDATS

- N'ouvrez pas cette épreuve avant d'y être autorisé(e).
- Traitez un seul sujet de composition. Vous devez baser votre réponse sur au moins deux des œuvres de la 3e partie que vous avez étudiées. Le cas échéant, vous pouvez inclure dans votre réponse une discussion sur une œuvre du même genre littéraire étudiée dans la 2e partie du programme. Les réponses qui ne sont pas basées sur au moins deux des œuvres de la 3e partie n'obtiendront pas une note élevée.

INSTRUCCIONES PARA LOS ALUMNOS

- No abra esta prueba hasta que se lo autoricen.
- Elija un tema de redacción. Su respuesta deberá basarse en al menos dos de las obras estudiadas en la Parte 3. Se podrán hacer comentarios sobre una obra de la Parte 2 del mismo género, si fuera necesario. Las respuestas que no incluyan una discusión sobre al menos dos obras de la Parte 3 no recibirán notas altas.

*Ysgrifennwch draethawd yn ateb i* ***un*** *o'r cwestiynau hyn. Rhaid ichi seilio eich ateb ar o leiaf ddau o'r gweithiau rhan 3 a astudiwyd gennych. Yn eich ateb cewch gynnwys trafodaeth ar waith rhan 2 o'r un genre, os yw'n berthnasol.* ***Ni*** *roddir marciau uchel am atebion nad ydynt wedi eu seilio ar o leiaf ddau o'r gweithiau rhan 3.*

**Barddoniaeth**

**1.** *Naill ai*

(a) Trafodwch berthynas y bardd â'i gymdeithas/chymdeithas mewn o leiaf ddwy o'r cerddi (gan wahanol feirdd) a astudiwyd gennych ar gyfer y cwrs hwn. Sut y cyflwyna'r bardd y berthynas honno i'r darllenydd, ac i ba raddau y daw'r darllenydd i gydymdeimlo ag ef/â hi?

*Neu*

(b) "Gan fod y ddawn i greu awyrgylch yn dibynnu, i raddau helaeth, ar apelio at y synhwyrau, mae'n rhywbeth sy'n neilltuol amlwg mewn barddoniaeth." Trafodwch y farn hon gan gyfeirio at unrhyw ddau neu dri o'r gweithiau y buoch yn eu hastudio. (Dylid cofio rhoi sylw i feirdd gwahanol.)

**Drama**

**2.** *Naill ai*

(a) Gan gyfeirio at o leiaf ddwy o'r dramâu a astudiwyd gennych, cymherwch y modd y mae dramodwyr yn defnyddio eu cyfrwng i archwilio emosiynau unigolion a'r gwrthdaro rhwng pobl.

*Neu*

(b) Cymherwch y technegau a ddefnyddir er mwyn cyflwyno grym a dosbarth/ grym neu ddosbarth yn o leiaf ddwy o'r dramâu a oedd yn rhan o'ch astudiaeth. Trafodwch effaith y technegau hyn ar y gynulleidfa.

**Nofel**

**3.** *Naill ai*

(a) Ystyriwch y defnydd a wneir o gymharu ac o wrthgyferbynnu, er enghraifft rhwng cymeriadau, lleoliadau neu ymagweddiadau, yn o leiaf ddwy o'r nofelau a ddewiswyd gennych i'w hastudio. A oedd y defnydd hwn yn effeithiol, ac os felly sut?

*Neu*

(b) Rhaid i'r nofelydd beri i'r darllenydd deimlo ei fod yn adnabod y cymeriadau y mae'n darllen amdanynt. Gan gyfeirio at o leiaf ddwy o'r nofelau a oedd yn rhan o'ch astudiaeth, eglurwch sut y gwna hyn, ac i ba raddau y teimwlch i chi ddod i adnabod y cymeriadau yn y gweithiau hynny.

**Storïau Byrion**

**4.** *Naill ai*

(a) Pa mor bwysig yw ystyriaethau thematig o ran yr effaith a gaiff y storïau byrion a oedd yn rhan o'ch astudiaeth? (Cofiwch y dylid ymdrin â gwaith gwahanol awduron.)

*Neu*

(b) "Gan amlaf, bydd y sawl sy'n darllen stori fer yn ei uniaethu ei hun, i raddau, â'r prif gymeriad." Trafodwch y gosodiad hwn gan gyfeirio at o leiaf ddau o'r gweithiau a astudiwyd gennych. Eglurwch sut y gwnaethoch ymateb i'r prif gymeriad ac i'r cymeriadau eraill, a pham? (Dylid gofalu ymdrin â gwaith gwahanol awduron.)

**Hunangofiant a Chofiant**

**5.** *Naill ai*

(a) Cymherwch y gwahanol ddulliau a ddefnyddiwyd gan gofianwyr/hunagofianwyr i'ch darbwyllo i ddilyn eu ffordd hwy o feddwl. Gan gyfeirio at ddau neu dri o'r gweithiau a gafodd eu hastudio gennych, eglurwch pa rai o'r dulliau hyn a gawsoch yn effeithiol, a pham?

*Neu*

(b) "Mae elfennau o ddifyrru ac o addysgu yn bwysig ym mhob cofiant/hunangofiant." Cymherwch y llwyddiant a gaiff gwahanol lenorion wrth gyfuno'r ddwy elfen wahanol hyn yn eu gwaith. Rhowch sylw neilltuol i o leiaf ddau o'r gweithiau a ddewiswyd gennych.

**Cwestiynau Cyffredinol**

**6.** *Naill ai*

(a) “Bydd awduron a beirdd yn ceisio newid meddwl eu darllenwyr.” A gytunwch â’r farn hon? A lwyddodd yr ysgrifenwyr y buoch yn astudio eu gwaith i newid eich meddwl chi, ac os felly sut?

*Neu*

(b) “Er mwyn ennill cydymdeimlad y darllenydd rhaid i awdur bortreadu cymeriadau credadwy mewn sefyllfaoedd perthnasol i ni heddiw.” I ba raddau y cytunwch â’r honiad hwn? (Dylid trafod o leiaf ddau o’r gweithiau gosod.)

*Neu*

(c) “O ran techneg, y rhan gryfaf o unrhyw waith llenyddol yw ei agoriad, gan mai yno y mae’r awdur yn ceisio ennill sylw’r darllenydd ac ennyn ei chwilfrydedd.” A gawsoch fod hyn yn wir, ac i ba raddau y cyflawnwyd, yng ngweddill y gweithiau, y disgwyliadau a enynnwyd ar y dechrau? (Cofier bod angen ymdrin ag o leiaf ddau waith gosod.)

*Neu*

(d) “Tyndra yw’r elfen bwysicaf mewn gwaith llenyddol.” Trafodwch y gosodiad hwn gan gyfeirio at ddau neu dri o’r gweithiau a astudiwyd gennych. Sut y llwyddwyd i gyfleu neu i greu tyndra yn y gweithiau hynny, a pha effaith a gafodd arnoch chi?